



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Llyn y Forwyn
Darran Terrace
Glynrhedynog
Rhondda Cynon Taf
CF43 4LG**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Llyn y Forwyn yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Glynrhedyn, ym mhen uchaf y Rhondda Fach ac o dan ofal Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf. Agorwyd yr ysgol ym Medi 1985 ac mae'n gwasanaethu'r ardal leol a'r pentrefi cyfagos.

Ar hyn o bryd, mae 204 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 42 o blant oed meithrin.

Mae dalgylch yr ysgol yn un yr ystyrir ei fod o dan anfantais economaidd. Mae 27% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim eleni. Mae 52 disgybl, sef tua 25%, ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, ffigwr sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw tua 36% o'r disgyblion o gartrefi lle mae rhieni'n medru siarad y Gymraeg. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn yw £3,137 sy'n cymharu gydag uchafswm o £6,499 ac isafswm o £2,591 ar gyfer ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 76ed uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Llyn y Forwyn yn ddigonol oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu;
- yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu gofalggar, symbylus a deniadol;
- perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng disgyblion a staff;
- disgyblion yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd;
- canlyniadau'r ysgol yn cymharu'n anffafriol gydag ysgolion tebyg dros gyfnod; a bod
- diffygion yn y cynllunio tymor byr yng nghyfnod allweddol dau.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Llyn y Forwyn yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned addysgol drefnus sy'n canolbwyntio ar lwyddiant ddisgyblion;
- y systemau ar gyfer hunan arfarnu'n gadarn a chynaliadwy, ac yn adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygu;
- yr ysgol wedi llwyddo i godi safonau yn ddiweddar mewn meysydd penodol, megis darllen ac ysgrifennu;
- holl staff yr ysgol yn gweithio'n briodol fel tîm ac yn rhannu'r un gwerthoedd; a bod
- arweinwyr meysydd dysgu yn gyffredinol effeithiol wrth weithredu eu cyfrifoldebau.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 barhau i godi safonau ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;
- A2 sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn cwrdd ag anghenion pob disgybl;
- A3 rhannu'r arfer dda ymhlith athrawon o safbwynt addysgu;
- A4 sicrhau cywirdeb o ran asesu a chymedroli;
- A5 sicrhau bod gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol ar draws yr ysgol;
- A6 sicrhau bod prosesau hunanarfarnu a monitro yn rhoi ffocws penodol ar ddeilliannau disgyblion; a
- A7 pharhau i ddatblygu rôl y corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae medrau gwrando bron pob disgybl yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol i'r hyn maent wedi ei glywed ac yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r modd y mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn rheolaidd yn nodwedd gref.

Gall y mwyafrif y disgyblion drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol yn y Gymraeg ar draws yr ysgol, ac yn y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Defnyddiant eirfa eang sy'n benodol i'r themâu dan sylw. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant clir yn y ddwy iaith, ac ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae mwyafrif y disgyblion hyn yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon uchel, gan amrywio arddull mewn gwahanol gyd destunau.

Gall mwyafrif y disgyblion ddwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda a gall y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn gymhwyso'u dealltwriaeth o gysyniadau mewn sefyllfaoedd newydd. Mae bron pob un yn datblygu'r medrau ehangach sydd eu hangen er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan ac i'w paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae'r tueddiadau yn y canran o ddisgyblion saith oed sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad) ar i lawr dros gyfnod o bum mlynedd. Mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Nid yw canlyniadau'r ysgol yn cymharu'n dda gyda'r teulu o ysgolion tebyg na Chymru gyfan. Mae'r canran a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) a lefel yn uwch na'r disgwyl (lefel 3) yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn 2011.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth dros bum mlynedd a rhwng yr 50% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg a Saesneg. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 yn gyffredinol is o gymharu â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Mae'r canlyniadau mewn Saesneg ychydig yn uwch na'r teulu. Mae'r canran a gyflawnodd lefel 5 neu uwch yn 2011 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ac yn debyg i Gymru mewn Saesneg. Yn 2011, nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng lefelau perfformiad bechgyn o gymharu â merched yng nghyfnod allweddol 2.

Mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn gyffredinol yn sylweddol is na'r gweddill. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy abl a thalentog, yn gwneud cynnydd da.

Mae'r safonau a arsylwyd arnynt adeg yr arolygiad yn gyffredinol uwch nag y mae'r data'n ei awgrymu.

Lles: Da

Mae safonau lles y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol fel chwaraeon a gemau.

Mae ymddygiad yn dda. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael mewn modd effeithiol ag unrhyw achos o ymddygiad amhriodol. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i eithrio unrhyw ddisgybl yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais, yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd. Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maent yn ymateb yn dda i gymhelliant ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae canran presenoldeb dros y tri thymor diwethaf wedi codi. Erbyn hyn, mae'r cyfartaledd ychydig dros 93% sy'n cymharu'n ffafriol gyda'r teulu o ysgolion tebyg. Mae prydlondeb yn dda.

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ymwybyddiaeth gref gan y disgyblion o'r ardal a'r gymuned leol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Digonol

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol, yn ystyried anghenion gwahanol y disgyblion ac yn darparu gweithgareddau ac adnoddau pwrpasol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae effeithiolrwydd cynllunio tymor byr yr athrawon ym mwyafrif y dosbarthiadau yn anghyson iawn. Nid yw'r athrawon hyn bob amser yn rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion unigolion na grwpiau o ddysgwyr mewn dosbarthiadau cymysg. O ganlyniad, nid yw'r tasgau a gyflwynir bob amser yn addas ar gyfer cwrdd ag anghenion pob disgybl ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Er hynny, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn datblygu'n briodol, gyda'r ymdrech i godi safonau mewn darllen yn cael effaith arbennig o gadarnhaol.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau amrywiol sy'n cyfoethogi'r dysgu. Mae yna gyswllt llwyddiannus rhwng yr ysgol a'r ysgol gyfun leol er mwyn

datblygu elfennau cwricwlaidd ar y cyd, er enghraifft prosiect celf. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth yn helpu disgyblion yn briodol i werthfawrogi'r amgylchedd a phwysigrwydd gofalu amdano yn ogystal ag i ddarganfod am y byd ehangach. O dan arweiniad Pwyllgor Eco gweithgar, mae ymrwymiad disgyblion i'r agweddau hyn yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion yn dangos empathi tuag at achosion da trwy gasglu arian yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o hanes, daearyddiaeth, celfyddyd a thraddodiadau diwylliannol Cymru yn dda iawn. Mae hyn yn greiddiol i holl waith ac ethos yr ysgol.

Addysgu: Digionol

Mae ethos gweithgar a hapus yn bodoli yn yr ysgol, gydag ymdeimlad o barch yn amlwg yn y dosbarthiadau. Mae cymorthyddion dosbarth yn rhoi cefnogaeth dda i'r holl ddisgyblion, ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon dosbarth. Mae rhan fwyaf y staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol i annog y disgyblion i weithio'n gydwybodol.

Yn y gwersi gorau, lle gwelir elfennau o ragoriaeth, mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus ac yn herio'r disgyblion drwy gwestiynu effeithiol iawn. Defnyddir amrywiaeth o arddulliau addysgu diddorol yn y gwersi hyn, i ysbrydoli'r disgyblion, i ddal eu dychymyg ac i wneud iddynt feddwl drostyn nhw eu hunain.

Mewn lleiafrif o'r gwersi llai effeithiol, nid yw cynllunio'r athrawon yn ddigon manwl. Yn y gwersi hyn, nid yw'r gwahaniaethu'n briodol, mae cyflymder y gwersi'n rhy araf ac ychydig gyfleoedd sydd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Yn gyffredinol, nid yw'r ffordd y mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn ddigon manwl, gan nad yw'r sylwadau'n nodi'r hyn sydd ei angen i wella yn ddigon penodol. Nid yw strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn weithredol ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno system asesu yn ddiweddar i olrhain perfformiad disgyblion yn agos, er ei bod yn rhy gynnar i arfarnu ei heffaith ar wella safonau.

Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys y wybodaeth briodol a chynigir cyfleoedd priodol yn ystod y flwyddyn iddynt drafod cynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cefnogi iechyd a lles disgyblion. Anogir disgyblion i fynegi barn yn rheolaidd, i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol ac i fod ynghlwm â gweithgareddau yn y gymuned leol. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Cynllunio'r ysgol y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn ofalus ac mae'n chwarae rhan allweddol ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol a chysylltiadau gydag asiantaethau allanol. Mae cyfundrefnau'r ysgol i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Er bod y strwythurau ar gyfer rhoi cefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig heb ddatblygu'n llawn, mae'r polisïau a'r cyfundrefnau'n effeithiol ac yn ffocysu ar anghenion pob disgybl fel unigolyn.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cryf ac effeithiol o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn, parch a chydarddoldeb. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau'n dda ac mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd priodol yn gyson i gymryd cyfrifoldeb.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ble caiff pob disgybl ei drin fel unigolyn. Hyrwyddir cyfle cyfartal yn weithredol trwy'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n dda. Datblygwyd ystafelloedd a gwagle mewn modd creadigol a llawn dychymyg. Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn dda ac mae safon uchel yr arddangosfeydd dosbarth yn helpu i greu amgylchedd dysgu symbylus a chyfoethog.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae ei gweledigaeth o sefydlu cymuned addysgol hapus sy'n galluogi disgyblion i lwyddo yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda rhieni, llywodraethwyr a staff. Gyda chymorth y dirprwy bennaeth, mae'n adnabod blaenoriaethau priodol i symud yr ysgol ymlaen. Mae gan yr ysgol nodau cytûn sy'n rhoi'r flaenoriaeth glir ar ddatblygiad iaith disgyblion.

Mae staff yr ysgol yn gweithio'n briodol fel tîm ac yn rhannu'r un gwerthoedd. Mae arweinwyr meysydd dysgu yn gyffredinol effeithiol wrth weithredu eu cyfrifoldebau. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli o safbwynt rheoli perfformiad a hyfforddi staff.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae rhai llywodraethwyr wedi ymweld â'r ysgol i fonitro gwersi. Fodd bynnag, nid ydynt yn dadansoddi data perfformiad yn effeithiol er mwyn herio'r ysgol yn ddigonol a chyfrannu'n llawn i'r broses hunanarfarnu.

Mae camau cadarnhaol wedi eu cymryd i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, yn arbennig y Cyfnod Sylfaen, sy'n gweithredu'n llwyddiannus. Cafodd medrau darllen ac ysgrifennu eu targedu'n ddiweddar, a gwelwyd cynnydd arwyddocaol mewn safonau. Mae arweinwyr yr ysgol wedi cydweithio gydag ysgolion eraill i ddatblygu rhwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae'r gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu wedi dechrau ond nid yw'r broses wedi'i gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ysgol wedi mynd ati yn briodol i ganfod barn disgyblion, staff a rhieni ac wedi ymateb yn addas i'r canfyddiadau.

Mae'r systemau ar gyfer hunanarfarnu yn gadarn a chynaliadwy, ac yn adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygu. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn fanwl ond nid yw'n ddigon arfarnol na chwaith yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r prosesau monitro, sy'n cynnwys arsylwadau gwersi, a gwerthusiadau cyson ac aml o wahanol agweddau o fewn meysydd dysgu, yn addas. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid ydynt yn arwain at osod targedau datblygu sy'n ffocysu'n ddigonol ar adnabod a gwella safonau.

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn cysylltu'n glir â'r broses hunanarfarnu i adnabod targedau datblygiad priodol ar gyfer yr ysgol, ond nid yw'r meini prawf llwyddiant drwyddi draw yn ffocysu'n ddigon penodol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol i ehangu ei hymrwymiad i rwydweithiau proffesiynol yn enwedig gydag ysgolion o fewn y dalgylch a'r ysgol uwchradd leol, a hefyd i raddau llai gydag ysgolion eraill yn y teulu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarnhaol iawn gyda rhieni a gofalwyr, gyda'r mwyafrif llethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn cyfrannu iddo mewn dulliau ymarferol, er enghraifft, adeiladu'r swît gyfrifiadurol.

Mae'r cysylltiadau â'r Cylch Meithrin sydd ar gampws yr ysgol yn effeithiol. Mae'r berthynas â'r ysgol uwchradd leol yn dda, ac mae'r plant yn elwa o weithgareddau pontio amrywiol. Mae'r pum ysgol clwstwr wedi cyflogi athro pontio i weithio gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar feysydd megis medrau gweithio mewn grŵp a medrau cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn manteisio'n briodol ar wasanaethau'r awdurdod lleol, ac ar sefydliadau megis y gwasanaeth iechyd ac asiantaethau diogelwch.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu'r berthynas gyda'r cymunedau busnes yn y pentref, a threfnir gweithgareddau megis cyngherddau a gwasanaethau'n rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo i hyfforddi myfyrwyr ar gyfer bod yn ofalwyr plant.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arian er mwyn sicrhau lefel briodol o staff sydd wedi eu hyfforddi a'u paratoi yn gymwys i gyflwyno'r cwricwlwm. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, fe lwyddodd yr ysgol i ddiddymu gorwariant sylweddol yng nghyllideb yr ysgol.

Adroddiad ar Ysgol Llyn y Forwyn
Hydref 2011

Mae staff ategol yr ysgol yn rhan effeithiol o'r tîm ac yn cael dylanwad cadarnahol ar y dysgu ac addysgu. Mae arweinwyr yn gweithredu'n bwrpasol i wella'r ddarpariaeth er mwyn datblygu eu meysydd ymhellach. Gwneir trefniadau priodol ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon, sy'n rhoi amser iddynt fonitro a datblygu eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant addas yn fewnol, a gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol ac asiantaethau hyfforddi pwrpasol.

O ystyried canlyniadau asesuadau athrawon ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, digonol yw'r gwerth am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 wedi dangos tuedd ar i lawr dros bum mlynedd. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 2 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) a lefel 2 neu uwch mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân yn sylweddol is yn 2011, o'u cymharu ag ysgolion tebyg a Chymru gyfan. Mae'r tuedd yn y canran sydd wedi cyrraedd lefel 3 hefyd ar i lawr dros pedair blynedd ac yn 2011 mae'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn y tri phwnc craidd. Ni chyrrhaeddodd yr un disgybl lefel 3 mewn gwyddoniaeth yn 2011. Mae'r bechgyn wedi perfformio'n gyffredinol is na'r merched yn y tri phwnc dros bedair blynedd.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros bum mlynedd. Mae yn y 25% isaf yn 2011.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn anwastad dros bum mlynedd. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) a lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol is yn 2011, o'u cymharu ag ysgolion tebyg a Chymru. Mewn Saesneg, mae'r tuedd dros gyfnod ar i fyny, ac mae canlyniadau 2011 ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ond yn is na Chymru. Mae'r tuedd yn y canran sydd wedi cyrraedd lefel 5 hefyd ar i lawr mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ond ar i fyny mewn Saesneg dros dair blynedd. Yn 2011, roedd y canran a gyflawnodd lefel 5 mewn Saesneg yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn debyg i Gymru. Roedd y canran mewn gwyddoniaeth hefyd yn uwch na'r teulu ond yn is na Chymru. Roedd y canran ar gyfer mathemateg a Chymraeg yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru. Ni chyrrhaeddodd yr un disgybl lefel 5 mewn Cymraeg yn 2011. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng lefel perfformiad y bechgyn o'u cymharu â'r merched yn 2011.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros bum mlynedd. Mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer Cymraeg a Saesneg wedi amrywio rhwng yr 50% uchaf a'r 25% isaf. Mae pob pwnc craidd yn y 25% isaf yn 2011.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymateb i holiaduron y disgyblion:

O'r 96 ymateb a gafwyd gan y disgyblion, mae pob un yn teimlo bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn meddwl bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio ac o'r farn eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef neu hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae bron pob un hefyd yn teimlo bod llawer o gyfleoedd iddyn nhw gael ymarfer corff yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent hefyd o'r farn bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron yn yr ysgol er mwyn iddyn nhw wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a'u bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Maent hefyd yn teimlo bod pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae'r mwyafrif o'r farn bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Ymateb i holiaduron y rhieni:

O'r 46 ymateb a gafwyd oddi wrth rieni, mae pob un o'r farn bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol.

Mae bron pob un yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Maent hefyd yn teimlo bod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol, eu bod yn ymddwyn yn dda a bod yr addysgu'n dda. Mae bron pob un hefyd yn teimlo bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a'i fod yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae bron pob rhiant yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae rhan fwyaf y rheini o'r farn bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol, bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch ac yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Maent yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, o'r farn bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb, a bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Mae llawer o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Huw Watkins	Arolygydd Cofnodol
Terwyn Tomos	Arolygydd Tîm
Stella Gruffydd	Arolygydd Tîm
Eirian Myfanwy Youngman	Arolygydd Lleyg
Rhodri Roger Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Petra Davies (Pennaeth)	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11